# LAWS, EDWARD (1837 - 1913), hanesydd sir Benfro

**Enw:** Edward Laws
**Dyddiad geni:** 1837
**Dyddiad marw:** 1913
**Priod:** Georgina Elizabeth Laws (née Nantes)
**Plentyn:** Emily Hewlett Edwards (née Laws)
**Plentyn:** Edward Lucian Laws
**Rhiant:** Mary Laws (née Mathias)
**Rhiant:** John Milligen Laws
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hanesydd sir Benfro
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Bertie George Charles

mab y llyngesydd John Milligen Laws (ganwyd 1799), Marchfield House, Binfield, Berkshire, a Mary (1815 - 1899), merch Charles Delamotte Mathias (gweler dan ' Mathias '), Lamphey Court a Llangwaran, Sir Benfro. Priododd ei rieni ar 25 Mehefin 1836 a ganwyd ef ar 17 Ebrill 1837 a'i fedyddio yn eglwys Lamphey ar 4 Gorffennaf. Cafodd ei addysg yn Rugby a Choleg Wadham, Rhydychen (ymaelododd 28 Mai 1856). Ei wraig, a fu farw ar 8 Mai 1897, oedd Georgina Elizabeth Laws, merch hynaf y Parch. W. Nantes, Frome Vowchurch, Dorset. Am rai blynyddoedd bu'n swyddog yn y 35 (Royal Sussex) Regiment. Wedi ymsefydlu yn Ninbych-y-pysgod bu'n amlwg ym mywyd cyhoeddus y dref a'r cylch am hanner canrif. Bu'n aelod o gyngor y dref (1897-?), maer y fwrdeisdref (1900), yn ustus heddwch dros Sir Benfro, a chadeirydd ustusiaid Dinbych-y-pysgod am gyfnod maith, ac yn 1899 efe oedd siryf sir Benfro. Ac yntau'n   r bonheddig ariannog, treuliodd lawer o'i hamdden dibrin yn astudio hanes ac archaeoleg sir Benfro. Ei brif weithiau yw *Little England beyond Wales*, 1880, *Church Book of St. Mary the Virgin, Tenby*, 1907, mewn cydweithrediad â'i ferch fabwysiedig Emily Hewlett Edwards, *A Short History of the Civil War as it affected Tenby and its neighbourhood*, 1887, a nifer o ysgrifau yn *Archæologia Cambrensis*, 1882-1906. Gyda chynhorthwy'r Dr. Henry Owen cyn gorffen y gwaith, cynhyrchodd arolwg ar archaeoleg sir Benfro, ' *Archaeological Survey of Pembrokeshire*,' 1908. Bu farw 25 Gorffennaf 1913 ar ôl damwain mewn cerbyd, a gadawodd un mab, Edward Lucian Laws.

## Awdur

**Dr Bertie George Charles**, (1908 - 2000)

## Ffynonellau


*The Tenby Observer*, Mai 1897, 31 Gorffennaf, 18 Medi 1913

*The Guardian* (sir Benfro), 1 Awsit 1913

*Church book of St. Mary the Virgin, Tenby* (Tenby 1907), 93

*Burke's Landed Gentry*, s.n. Mathias

William R. O'Byrne, *A Naval Biographical Dictionary. Comprising the life and services of every living officer in Her Majesty's Navy, from the rank of Admiral of the Fleet to that of Lieutenant, inclusive. Compiled from authentic and family documents* (Llundain 1849), 1849

Foster, *Alumni Oxonienses*


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732961


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu